# GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL 2025-2030



Cyhoeddwyd gan:
Yr Arolygiaeth Dŵr Yfed
Ground Floor, SW
Seacole Building
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ffôn: 0330 041 6501

Gwefan: www.dwi.gov.uk

ISBN: 978-1-911087-57-1

© Hawlfraint y Goron 2025

Y Goron sy'n berchen ar hawlfraint y trefniant teipograffyddol a'r dyluniad. Gellir copïo'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logo) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai'r Goron sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl a ffynhonnell y cyhoeddiad.

# Cynnwys


Cynnwys ........................................................................................................ 3

Rhagair ........................................................................................................ 4

Dyletswyddau statudol yr Arolygiaeth ........................................................ 6

Prif weithgareddau anstatudol yr Arolygiaeth ............................................ 8

Gweledigaeth ac amcanion strategol yr Arolygiaeth ................................... 9

Ein hamcanion yn fwy manwl ..................................................................... 13




# Rhagair

Mae darparu dŵr yfed glân yn hanfodol i iechyd a lles cymdeithas a ffyniant economaidd, ac mae sicrhau bod pawb yn gallu cael gafael ar ddŵr glân yn hawl ddynol sylfaenol a gydnabyddir gan y Cenhedloedd Unedig. Mae'r datblygiadau mewn cynlluniau diogelwch dŵr a systemau rheoli sy'n seiliedig ar brosesau cadarn i reoleiddio ansawdd dŵr yn darparu dŵr yfed sydd ymysg y gorau yn y byd.

Mae ansawdd dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr yn dal yn rhagorol, gyda chyflenwadau cyhoeddus yn bodloni'r safonau rheoleiddio llym ar gyfer dŵr yfed yn gyson. Mae lefel cydymffurfio â'r safonau yn 99.97% yn gyson, er mai'r her o hyd yw sicrhau cydymffurfedd 100% â'r safonau rheoleiddio.

Mae cyflenwadau dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr yn cael eu diogelu gan gynlluniau diogelwch sy'n darparu dull aml-rwystr cadarn. Yn y broses hon, mae risgiau'n cael eu nodi o'r tarddiad i'r tap, ac mae mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r risgiau cyn unrhyw ddirywiad neu effaith ar ddefnyddwyr. Mae ansawdd y cyflenwadau'n cael ei gadarnhau ymhellach drwy brosesau samplu ar hap helaeth. O bryd i'w gilydd, bydd pethau'n mynd o chwith. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd yr Arolygiaeth yn ymchwilio, yn asesu achosion o dorri amodau cydymffurfio a digwyddiadau, ac yn cymryd camau gorfodi i atal hyn rhag digwydd eto. Mae crynodeb o fanylion y gweithgarwch rheoleiddio a gynhaliwyd gan yr Arolygiaeth yn ystod 2024 yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd, ac mae rhagor o fanylion am raglenni gwella cwmnïau yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Arolygiaeth.

Mae ein system cyflenwi dŵr dan bwysau oherwydd amrywiaeth o fygythiadau gwahanol. Mae'r newid yn yr hinsawdd a thwf yn y boblogaeth yn gwneud y rhain yn faterion brys. Ym mis Ionawr, fe wnes i argymhellion i weinidogion ar gyfer diweddaru ein safonau ar gyfer dŵr yfed. Mae'r argymhellion wedi bod yn sail i ganllawiau i gwmnïau dŵr, gyda'r amcan yn y pen draw o ddiweddaru'r rheoliadau i fodloni safonau ansawdd modern. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i aros yn hyderus yn ansawdd eu dŵr yfed, wedi'i ddiogelu rhag halogyddion.

Fodd bynnag, mae angen ystyried materion eraill yn awr. Mae gwydnwch cyflenwadau, diogelwch, digonolrwydd mewn cyfnodau o sychder, cynlluniau ailddefnyddio dŵr yn ddiogel, prosesau trin newydd a hen broblemau fel pibellau plwm mewn anheddau domestig, i gyd yn faterion pwysig y mae angen mynd i'r afael â nhw. Mae'r Arolygiaeth wedi gweithio'n agos gydag Ofwat drwy'r adolygiad prisiau pum mlynedd i sicrhau bod buddsoddiad digonol yn asedau a seilwaith y cwmni, ond mae llawer i'w wneud o hyd i wella iechyd a gwydnwch asedau.

Er mwyn cryfhau ein gallu i reoleiddio, mae blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

Ymestyn y fframwaith rheoleiddio i gynnwys contractwyr trydydd parti a'r rheini sy'n ymwneud â chyflenwi dŵr.

Darparu pwerau ychwanegol i sicrhau cyflenwadau digonol ochr yn ochr ag ansawdd dŵr. Disgwylir i’r newid yn yr hinsawdd a seilwaith sy'n heneiddio waethygu problemau cyflenwi, gan wneud hon yn broblem frys.

Hwyluso’r broses o ddefnyddio dŵr wedi'i gasglu, dŵr wedi'i ailgylchu a dŵr llwyd at ddibenion domestig, gan reoli risgiau iechyd a darparu canllawiau clir.

Cryfhau pwerau gorfodi gan gynnwys rhoi awdurdod i'r Arolygiaeth gyhoeddi hysbysiadau, dirwyon a chosbau. Cyflwyno gorfodaeth raddol ar gyfer Cyfarwyddyd Diogelwch ac Argyfyngau ac ymestyn pwerau mynediad yr Arolygwyr.

Ei gwneud yn orfodol i gwmnïau dŵr gynnal asesiadau risg diogelwch ar gyfer holl asedau’r cwmni a chysylltu dyletswyddau adrodd â phwerau gorfodi.

Mynd i'r afael â'r risg hirdymor o ddod i gysylltiad â phlwm yn y pibellau cyflenwi. Gwneud hynny drwy dynhau'r safon a datblygu polisïau i gyflymu'r gwaith o newid pibellau cyflenwi plwm.

Yn gyffredinol, mae ansawdd cyflenwadau dŵr preifat yn salach o'u cymharu â chyflenwadau cyhoeddus. Rydym yn cefnogi cryfhau'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cyflenwadau hyn, gan gynnwys gofyniad i gofrestru gyda'r awdurdod lleol.

Edrychaf ymlaen at weithio gydag egni a phwrpas newydd i ddiogelu a gwella cyflenwadau dŵr yfed heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



Marcus Rink
Prif Arolygydd Dŵr Yfed



# Dyletswyddau statudol yr Arolygiaeth

## Sefydlu, pwerau a deddfwriaeth sylfaenol

Sefydlwyd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed gan y Senedd yn 1990 i roi sicrwydd annibynnol bod y diwydiant dŵr sydd wedi'i breifateiddio yng Nghymru a Lloegr yn darparu dŵr yfed glân a diogel i ddefnyddwyr. Mae materion sy'n ymwneud â'r cyflenwad dŵr wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru drwy Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a'r Arolygiaeth yw'r rheoleiddiwr ar gyfer Cymru a Lloegr.

Penodir Prif Arolygydd Dŵr Yfed gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a gweinidogion Cymru, ac mae'n gweithredu ar eu rhan. Mae rhai pwerau wedi'u breinio'n uniongyrchol i'r Prif Arolygydd sy'n sicrhau annibyniaeth glir yng ngwaith yr Arolygiaeth. Yn ogystal â rôl reoleiddio'r Arolygiaeth, y Prif Arolygydd a'r Arolygwyr yw'r cynghorwyr technegol penodedig i'r Ysgrifennydd Gwladol a gweinidogion Cymru ar bob mater sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yfed.

Mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n nodi swyddogaethau a dyletswyddau'r Arolygiaeth wedi'i chynnwys yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991[1]. Mae'r darpariaethau gorfodi yn adran 68 o'r Ddeddf wedi'u dirprwyo'n ffurfiol i'r Prif Arolygydd gan weinidogion. Mae'r darpariaethau yn adran 70 o'r Ddeddf, sy'n ymwneud ag achosion yn erbyn ymgymerwyr dŵr ac eraill sy'n cyflenwi dŵr sy'n anaddas i'w yfed gan bobl, wedi'u breinio'n uniongyrchol i'r Prif Arolygydd.

## Rheoleiddiwr ansawdd dŵr yfed ar gyfer cyflenwadau cyhoeddus

Yr Arolygiaeth yw'r rheoleiddiwr ar gyfer ansawdd cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus. Mae Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2016 (Lloegr) a Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2018 (Cymru) yn nodi'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer ansawdd cyflenwadau dŵr yfed cyhoeddus..

## Cynghorydd technegol ansawdd dŵr yfed ar gyfer cyflenwadau preifat

Mae cyflenwadau dŵr preifat yn cael eu rheoleiddio gan awdurdodau lleol. Mae'r Arolygiaeth yn darparu cymorth technegol ac yn paratoi adroddiad blynyddol i weinidogion ar ansawdd cyflenwadau preifat.

## Rheoleiddiwr seiberddiogelwch y diwydiant dŵr

Yr Arolygiaeth yw'r rheoleiddiwr ar gyfer Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth 2018 , sy'n ymdrin â seiberddiogelwch yn y diwydiant dŵr. Mae'r

[1] Fel y'i diwygiwyd.

rheoliadau hyn yn gosod unrhyw gwmni sy'n cyflenwi dŵr yfed i fwy na 200,000 o bobl fel gweithredwr gwasanaethau hanfodol, gyda gofynion cysylltiedig i reoli risgiau i'w rhwydwaith a'u systemau gwybodaeth, ac i atal a lleihau effaith digwyddiadau ar y systemau hynny.

### Rheoleiddiwr diogelwch ac argyfyngau ar gyfercyflenwadau dŵr a charthffosiaeth

Yr Arolygiaeth yw rheoleiddiwr ar gyfer Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng (Ymgymerwyr Dŵr a Charthffosiaeth a Thrwyddedeion Cyflenwi Dŵr) 2022 (fel y'i diwygiwyd). O dan adran 208 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, mae'n ofynnol i ymgymerwyr a thrwyddedeion gynnal cyflenwad dŵr a/neu system garthffosiaeth er budd diogelwch gwladol neu i liniaru effeithiau unrhyw argyfwng sifil a allai ddigwydd. Rôl yr Arolygiaeth yw adolygu hunanasesiadau blynyddol cwmnïau ac, ynghyd ag archwilio ac asesu digwyddiadau, cymryd unrhyw gamau gorfodi a chydymffurfio angenrheidiol yn unol â pholisi gorfodi’r Cyfarwyddyd Mesurau Diogelwch ac Argyfwng, ar gyfer dŵr a dŵr gwastraff.



# Prif weithgareddau anstatudol yr Arolygiaeth

Mae ein gwaith yn eang, ac yn cynnwys pob agwedd ar ansawdd cyflenwadau dŵr cyhoeddus. Mae arbenigedd technegol cyfunol ein staff yn cwmpasu pob agwedd ar wyddoniaeth, peirianneg a rheoli cyflenwadau dŵr yfed. Yn cyd-fynd yn agos â'n dyletswyddau statudol, mae'r Arolygiaeth yn gyfrifol am lawer o swyddogaethau eraill, gan gynnwys:

- Darparu cyngor ac arweiniad i gyflenwyr dŵr [2]ar bob agwedd ar y cyflenwad dŵr yfed.
- Delio ag ymholiadau gan ddefnyddwyr, sefydliadau a busnesau am ansawdd dŵr yfed.
- Darparu cyngor technegol i weinidogion a swyddogion ar faterion yn ymwneud â chyflenwad dŵr yfed, ac ar ymholiadau Seneddol ac ymholiadau eraill sy'n codi.
- Cydweithio â rheoleiddwyr eraill yn y diwydiant dŵr.
- Darparu cyngor i weinidogion ar gyflenwadau dŵr preifat (y rheini nad ydynt yn cael eu cyflenwi gan gwmni dŵr) a materion cysylltiedig.
- Darparu cyngor a chefnogaeth i awdurdodau lleol ar bob agwedd ar ansawdd dŵr yfed, gan gynnwys cyflenwadau dŵr preifat.
- Rheoli rhaglen ymchwil Defra ar Ansawdd Dŵr ac Iechyd.

Cyfrifoldeb swyddogion polisi yw cynghori eu gweinidogion ar faterion polisi sy'n codi mewn cysylltiad â chyflenwad dŵr yfed.



[2] Mae cyflenwyr dŵr yn cynnwys cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, cwmnïau cyflenwi dŵr yn unig, penodeion newydd ac amrywiadau a thrwyddedeion cyflenwi dŵr eraill fel y'u diffinnir yn Neddf y Diwydiant Dŵr (deiliaid awdurdodiadau trwydded cyflenwi dŵr (cyfanwerthol ac atodol) a thrwyddedeion manwerthu yn unig).

# Gweledigaeth ac amcanion strategol yr Arolygiaeth

**EIN GWELEDIGAETH:** Sicrhau bod dŵr yfed yn ddiogel yng Nghymru a Lloegr

**EIN HAMCANION STRATEGOL:**

**1: Diogelu iechyd y cyhoedd drwy gyflenwad parhaus o ddŵr yfed iach**

*Mae iechyd y cyhoedd yn dibynnu ar gyflenwad parhaus o ddŵr yfed iach. Rydym yn sicrhau bod cyflenwadau cyhoeddus yn ddigonol, yn ddiogel ac yn wydn. Rydym yn cymryd camau gorfodi i wella gwydnwch y system a sicrhau diogelwch cyflenwadau yn y dyfodol.*

Rydym yn hyrwyddo polisïau sy'n lleihau'r tebygrwydd o ddod i gysylltiad â phlwm mewn dŵr yfed, gan weithio gyda Gweinidogion i ddiweddaru deddfwriaeth trawsgludo, a thynnu sylw at rwymedigaethau landlordiaid i dynnu plwm o'r system gyflenwi, yn ogystal â sicrhau bod cwmnïau dŵr yn blaenoriaethu ysgolion a meithrinfeydd.

*Rydym yn asesu cynlluniau diogelwch cwmnïau a'u gallu i wrthsefyll ymosodiadau seiber. Mae'r rhain yn elfennau hanfodol sy'n sicrhau bod defnyddwyr yn mwynhau cyflenwad dŵr parhaus heb unrhyw ymyriadau.*

**2: Diogelu a gwella ansawdd dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr, gan gynnal hyder defnyddwyr mewn dŵr yfed trwy wneud hynny**

*Rydym yn rheoleiddio cwmnïau dŵr i sicrhau bod cyflenwadau'n parhau i fod o ansawdd eithriadol o uchel. Ein dull gweithredu yw creu cynlluniau diogelwch dŵr, sy'n cael ei argymell gan Sefydliad Iechyd y Byd, i sicrhau bod risgiau, o'r tarddiad i'r tap, yn cael eu nodi a'u cywiro cyn cael unrhyw effaith ar ddefnyddwyr. Rydym yn ystyried mai'r ffordd orau o ddiogelu cyflenwadau yw rheoli dalgylchoedd a diogelu ffynonellau, yn ogystal â thrin a diheintio dŵr a dilyn gweithdrefnau monitro a dilysu digonol i brofi'r ansawdd. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella ansawdd cyflenwadau dŵr preifat.*

*Rydym yn cynnal asesiadau annibynnol o berfformiad cwmnïau dŵr ac yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn Adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd. Mae defnyddwyr yn gallu cael gafael ar berfformiad eu cwmni dŵr a gallant fod â hyder yn eu cyflenwad dŵr yfed.*

Rydym yn cynghori'r llywodraeth ar ddiweddariadau i safonau dŵr yfed i ddiogelu defnyddwyr rhag halogion newydd a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gyfredol.

**3: Sicrhau bod cyflenwadau dŵr yfed yn cael eu rheoleiddio'n effeithiol.**

*Mae ein gweithgarwch gorfodi yn canolbwyntio ar y risg fwyaf i ddefnyddwyr cwmnïau dŵr a'i nod yw atal problemau rhag datblygu a rhoi atebion cynaliadwy tymor hir ar waith. Mae tri pholisi gorfodi, sef ansawdd dŵr yfed, diogelwch a chynllunio cyflenwadau at argyfyngau a seiberddiogelwch, wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan, ac mae ein prosesau gorfodi yn dryloyw. Rydym yn darparu canllawiau technegol ochr yn ochr â phob set o reoliadau i egluro disgwyliadau ar gyfer y cwmnïau dŵr, yn unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell a chod y rheoleiddwyr. Mae gan ein staff sgiliau a gwybodaeth dechnegol ac ymchwiliol am y diwydiant dŵr, ac mae ganddynt adnoddau fel eu bod yn cyflawni'r egwyddorion hyn yn effeithiol.*

Mae endidau trydydd parti yn y gadwyn gyflenwi dŵr sydd heb drwydded y tu hwnt i gyrhaeddiad rheoleiddiol yr Arolygiaeth, ac maent yn peri risgiau i ddefnyddwyr. Pan ddrafftiwyd Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, ni ystyriwyd defnyddio contractwyr, dylunwyr, adeiladwyr/gosodwyr a gweithredwyr trydydd parti i gyflenwi gwaith amrywiol, gan cynnwys codi safleoedd trin dŵr (o dan broses Caffael Uniongyrchol i Gwsmeriaid (DPC) Ofwat) a chysylltiadau mewn tai domestig. Mae hyn yn creu grŵp o weithredwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw bwerau i archwilio, ymchwilio, gorfodi nac erlyn unrhyw un nad yw'n ymgymerwr dŵr nac yn drwyddedai. Dylid cywiro hyn er mwyn diogelu ansawdd a diogelwch yr holl gyflenwadau dŵr yfed. Mae disgwyl i'r defnydd o drydydd partïon gynyddu o dan gynlluniau marchnad cystadleuol. Gellir defnyddio contractau i fynd i'r afael â rhai o'r materion sy'n ymwneud â'r broses DPC yn y cyfamser. Fodd bynnag, newid deddfwriaeth sylfaenol yw'r opsiwn parhaol sy'n cael ei ffafrio.

**4: Hyrwyddo cynllunio tymor hir ar gyfer cyflenwadau dŵr yfed**

*Mae gallu cael gafael ar ddŵr yfed glân yn hawl ddynol sylfaenol a gydnabyddir gan y Cenhedloedd Unedig ac mae darparu dŵr yfed diogel a digonol yn dibynnu ar gynllunio tymor hir effeithiol. Byddwn yn darparu canllawiau i gwmnïau dŵr ar ofynion cynllunio tymor hir ar gyfer dŵr yfed. Byddwn yn sicrhau bod cyflenwadau'n iach, yn gynaliadwy ac yn wydn drwy ddefnyddio rhaglenni gwella statudol, a byddwn yn craffu ar gynlluniau buddsoddi cwmnïau dŵr i sicrhau bod yr holl weithrediadau, o'r tarddiad i'r tap, yn ddiogel o ran darparu ein dŵr yfed ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.*

*Drwy Gymdeithas y Rheoleiddwyr ar gyfer Cynnydd Datblygu Seilwaith, rydym yn sicrhau bod cyflenwadau newydd yn ddiogel ac yn dderbyniol i ddefnyddwyr.*

*Rydym yn cefnogi defnyddio adnoddau'n effeithlon; rydym yn argymell bod defnyddwyr diwydiannol yn defnyddio llai o'r cyflenwad dŵr iach lle bo hynny'n bosibl, ac yn cefnogi defnyddio dŵr wedi'i ailgylchu yn ddiogel sy'n cael ei drin i safon dŵr yfed iach, ac sy'n cael ei gefnogi gan gynllun diogelwch dŵr.*

*I fynd i'r afael â chyfyngiadau ar adnoddau, yn ystod 2025 byddwn yn datblygu safonau ansawdd dŵr sy'n briodol ar gyfer fflysio toiledau ac i'w ddefnyddio mewn gerddi, a hynny er mwyn hwyluso defnyddio dŵr wedi'i ailgylchu/llwyd/dŵr glaw at ddefnydd domestig a diwydiannol. Byddwn yn ymgynghori â grŵp cynghori arbenigol i sicrhau bod safonau'n ddiogel ac yn ymarferol.*

*Weithiau, nid yw cwmnïau dŵr yn gallu ateb y galw am ddŵr, sy'n golygu bod defnyddwyr yn cael eu gadael heb ddŵr o'r prif gyflenwad. Gallai hyn fod oherwydd digwyddiadau fel sychder, rhewi neu rew yn dadmer yn gyflym a/neu ddiffyg gwydnwch y seilwaith rhwydwaith. Gall hyn arwain at bibellau'n byrstio. Yn wahanol i faterion yn ymwneud ag ansawdd dŵr, nid yw'r is-ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i'r Arolygiaeth erlyn cwmnïau dŵr am eu methiannau, na cheisio ymrwymiadau cyfreithiol i wella eu gwasanaeth. Er bod dyletswydd mewn deddfwriaeth sylfaenol ar yr Arolygiaeth i sicrhau bod dŵr yn ddigonol, nid oes unrhyw bwerau i wneud deddfwriaeth yn y maes hwn, a dyna pam nad yw'n rhan o'n his-ddeddfwriaeth. Mae hon yn broblem ac mae'n debygol o ddod yn un fwyfwy arwyddocaol gydag effeithiau newid yn yr hinsawdd, fel tywydd mwy eithafol a seilwaith sy'n heneiddio. Dylid mynd i'r afael â hyn i sicrhau bod gennym y ddeddfwriaeth angenrheidiol i ddal cwmnïau dŵr (ac o bosibl unigolion perthnasol*

*mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat, ond mae hyn i'w drafod) i gyfrif er mwyn darparu cyflenwad iach a digonol. Dylai'r Arolygiaeth fod yr awdurdod rheoleiddio dirprwyedig ar gyfer digonolrwydd a chael pwerau i archwilio asedau a phenderfynu a yw cyflenwadau dŵr yn ddigon gwydn o'r tarddiad i dap y defnyddiwr. Byddai hyn yn galluogi'r Arolygiaeth i gymryd camau gorfodi pan ystyrir bod asedau'n risg i'r cyflenwad dŵr a bod ganddi bwerau uniongyrchol i erlyn am 'ddiffyg dŵr'. Dylai'r Arolygiaeth fod â dyletswydd o ran cynlluniau digonolrwydd a gwydnwch dŵr cwmnïau y mae'r Arolygiaeth yn eu goruchwylio.*

**5: Rhoi cyngor ar faterion polisi cenedlaethol sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yfed, cyflenwi a diogelwch a chynllunio at argyfyngau.**

*Rydym yn seilio ein gwaith ar dystiolaeth a gwyddoniaeth gadarn, ac rydym yn cynnal ymchwil ar fygythiadau sy'n dod i'r amlwg i ddŵr yfed er mwyn deall risgiau sy'n newid, ac addasu ein dull rheoleiddio.*

*Rydym yn cyhoeddi data gan gwmnïau dŵr ac awdurdodau lleol. Rydym yn rheoli data'n ddiogel ac yn datblygu systemau sy'n ein galluogi ni ddefnyddio'r data hwnnw i gyflawni ein holl amcanion strategol eraill, gan reoleiddio'n effeithlon, yn deg ac yn effeithiol.*

*Bydd yr Arolygiaeth yn darparu cyngor technegol ar ansawdd, digonolrwydd a diogelwch dŵr yfed a materion cynllunio at argyfyngau. Mae hyn yn cynnwys mewn argyfyngau, ar gyfer datblygu polisi cenedlaethol ac i gefnogi ein holl randdeiliaid, sef y diwydiant dŵr, polisi a llywodraeth, rheoleiddwyr a'r cyhoedd, gan ddarparu gwybodaeth gywir a hygyrch yn brydlon. Byddwn yn hyrwyddo bod pob cymuned yn gallu cael gafael ar ddŵr yfed diogel.  Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr cenedlaethol a rhyngwladol i ddarparu'r cyngor gorau er budd defnyddwyr.*

*Byddwn yn darparu gwasanaeth cynghori technegol i awdurdodau lleol i'w helpu i reoleiddio cyflenwadau dŵr preifat, a byddwn yn cyflwyno adroddiadau i'r llywodraeth ar ansawdd cyflenwadau dŵr preifat.*



# Ein hamcanion yn fwy manwl

## 1. Rheoleiddio a deddfwriaeth

### Amcan: Sicrhau bod cyflenwyr dŵr yn cydymffurfio â deddfwriaeth ansawdd dŵr yfed.

Byddwn yn darparu mesurau rheoleiddio cymesur a phriodol, sy'n gweddu i'r ddeddfwriaeth bresennol, i sicrhau bod cyflenwadau dŵr yfed yn parhau'n iach ac yn ddigonol nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Wrth wneud hynny, byddwn yn diogelu iechyd y cyhoedd ac yn ceisio cynnal hyder y cyhoedd mewn dŵr yfed.

Ein dull gweithredu: Byddwn yn cynghori llunwyr polisïau i sicrhau bod deddfwriaeth yn addas i'r diben, yn ymarferol ac yn berthnasol i'r diwydiant dŵr ac i gyflenwyr dŵr preifat.

## 2. Ymgysylltu â rhanddeiliaid


Amcan: Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys cyflenwyr dŵr, cadwyni cyflenwi, y llywodraeth, rheoleiddwyr a defnyddwyr, er mwyn cynnal a gwella dŵr yfed iach a digonol.

Ein dull gweithredu: O ran polisi, byddwn yn ymgysylltu ar bob lefel ar amcanion strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Byddwn yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill ac yn ymgysylltu â'u strategaethau i sicrhau bod ansawdd a digonolrwydd dŵr yfed bob amser yn cael ei ystyried o fewn cwmpas unrhyw benderfyniad strategol.

Byddwn yn ymgysylltu â chyflenwyr dŵr ar bob lefel, gan gynnwys lefelau bwrdd a gweithio, i sicrhau bod dŵr yfed iach a digonol yn cael ei ddarparu. Byddwn yn hyrwyddo rôl sylweddol y gadwyni gyflenwi fel bod cwmnïau dŵr yn ystyried eu gweithrediadau wrth geisio cynnal cyflenwad dŵr iach.

Byddwn yn rhoi defnyddwyr wrth galon ein penderfyniadau.

| Key: |
|---|
| Primary Stakeholder groups |
| Stakeholders we work with to deliver our goals |
| Stakeholders we engage with regularly |




## 3. Sicrwydd

Amcan: Gweithredu i'r safonau a ddisgwylir gan Cod y Rheoleiddwyr i sicrhau bod ein prosesau rheoleiddio yn agored, yn dryloyw, yn gymesur ac yn seiliedig ar risg. Byddwn yn deg ac yn annibynnol.

Ein dull gweithredu: Cyhoeddi: Byddwn yn cyhoeddi ein polisi gorfodi, a'r mecanweithiau apelio cysylltiedig, adroddiad ar ein camau gweithredu a'n hadroddiad Perfformiad Busnes blynyddol, mewn ffordd syml. Bydd ein strategaethau a'n hadroddiadau yn cael eu rhannu ar ein gwefan.

Ymddygiad: Byddwn yn ymateb i achosion o beidio â chydymffurfio mewn ffordd deg a chyfartal, ond byddwn yn cymryd camau gorfodi os bydd angen. Byddwn yn sicrhau bod prosesau rheoleiddio cwmnïau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd deg, a byddwn yn dryloyw o ran yr holl fesurau perfformiad rydym yn eu defnyddio.

Byddwn bob amser yn rhoi esboniad amserol o'n penderfyniadau i'r rheini rydym yn eu rheoleiddio, er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwell a chaniatáu iddynt weithio tuag at gydymffurfedd llawn.

Byddwn yn cydnabod ymdrechion cwmnïau i sicrhau cydymffurfedd mewn ffordd deg a chyfartal.

Byddwn yn osgoi rhoi baich rheoleiddio diangen ar y rheini rydym yn eu rheoleiddio a byddwn yn dal ein hunain i gyfrif drwy ein polisïau a'n gweithdrefnau ein hunain.

Byddwn yn gofyn am adborth gan y rheini rydym yn eu rheoleiddio er mwyn meithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol.

Byddwn yn rheoleiddio cyflenwadau dŵr cyhoeddus drwy ddefnyddio staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, gan arfer ein pwerau gorfodi, fel y bo'n briodol, i ddiogelu defnyddwyr. Byddwn yn goruchwylio gweithgareddau cyflenwyr dŵr, gan gynnal ein hymchwiliadau archwilio a'n swyddogaethau asesu mewn ffordd effeithlon a thryloyw, er budd defnyddwyr.

## 4. Sefydliad

Amcan: Sicrhau bod strwythur y sefydliad wedi'i gynllunio i gyflawni ein hamcanion strategol, a bod ein staff yn gymwys, yn gyson, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Ein dull gweithredu: Byddwn yn cynnal ein gweithlu medrus iawn, sy'n cynnwys grŵp proffesiynol, amlddisgyblaethol o arbenigwyr.

## 5. Gwybodaeth a thechnoleg

Amcan: Defnyddio technoleg ddigidol i gasglu ac adrodd ar wybodaeth mewn ffordd hygyrch a dibynadwy i'r holl randdeiliaid.

Ein dull gweithredu: Sicrhau bod ein gwefan yn addas i'r diben, yn gywir ac yn berthnasol.

Datblygu TG gyda rhyngwyneb hawdd ar gyfer casglu gwybodaeth gan randdeiliaid (sydd o dan rwymedigaeth i'w darparu), mewn ffordd sy’n wydn ac yn ddibynadwy.

Datblygu rhyngwynebau sy'n sicrhau bod deunyddiau perthnasol yn cael eu dosbarthu i randdeiliaid lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol a defnyddwyr.

## 6. Cyfathrebu

Amcan: Defnyddio offer cyfathrebu effeithiol i gael yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau cadarn er budd y cyhoedd; a dosbarthu gwybodaeth berthnasol i randdeiliaid, gan gynnwys gweinidogion, defnyddwyr, cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr.

Ein dull gweithredu: Ymgysylltu â grwpiau perthnasol, sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr yfed, ar lefel ryngwladol, genedlaethol a lleol.

Byddwn yn defnyddio methodolegau sydd wedi'u profi i gael gwybodaeth am ansawdd dŵr yfed o ffynonellau gwahanol, gan gynnwys dulliau ymchwil, gwleidyddol, rhyngwladol, y cyfryngau a grwpiau sydd â diddordeb.

Byddwn yn darparu cyngor ac arweiniad amserol a thechnegol i gyflenwyr dŵr, llywodraethau, awdurdodau lleol, swyddogion iechyd a rheoleiddwyr eraill, ar lefel genedlaethol a rhyngwladol; byddwn yn edrych ar gyfraniad posibl cyfryngau cymdeithasol at yr amcan hwn.

Sicrhau bod gan ddefnyddwyr ddigon o wybodaeth i fod â hyder yn ansawdd eu dŵr yfed.

## 7. Cyflenwadau dŵr cyhoeddus

Amcan: Sicrhau trefn reoleiddio briodol sy'n cyd-fynd â datblygiadau a allai effeithio ar ddŵr yfed. Sicrhau bod lefel uchel o gyflenwyr dŵr yn cydymffurfio â'r drefn reoleiddio honno, er mwyn i ddefnyddwyr gael hyder yn eu cyflenwadau dŵr yfed.

Ein dull gweithredu: Sicrhau bod deddfwriaeth yn gyfredol ac yn berthnasol; darparu adnoddau i gasglu ac adrodd gwybodaeth; a gweithredu ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau ein bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau.

Byddwn yn parhau â’r deddfiad WIA i ddiogelu iechyd y cyhoedd ar ran defnyddwyr.

Darparu cyngor a gwybodaeth dechnegol i Defra a Llywodraeth Cymru er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Sicrhau bod yr offer a'r adnoddau ar gael i goladu a chynnal y cofnod cenedlaethol ar gydymffurfio â'r rheoliadau cyflenwi dŵr cyhoeddus, ac adrodd ar y statws presennol i weinidogion.

Datblygu a chynnal mesurau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n arwain at newid a gwelliant cadarnhaol yn y diwydiant.

## 8. Systemau Rhwydwaith a Gwybodaeth

Mae'r Gyfarwyddeb Diogelwch Rhwydweithiau a Systemau Gwybodaeth (NIS) yn darparu mesurau cyfreithiol i ddiogelu gwasanaethau a seilwaith hanfodol, drwy wella diogelwch systemau rhwydwaith a gwybodaeth. Mae'r Gyfarwyddeb yn berthnasol i'r sectorau hynny sy'n hanfodol i'r economi a chymdeithas, ac sy'n darparu gwasanaethau fel cyflenwi trydan, dŵr, gofal iechyd a thrafnidiaeth.

Mabwysiadwyd y Gyfarwyddeb NIS gan Senedd Ewrop ar 6 Gorffennaf 2016, ac roedd gan Aelod-wladwriaethau'r UE tan 9 Mai 2018 i drosi'r Gyfarwyddeb yn ddeddfwriaeth ddomestig. Rhoddodd y DU ofynion y Gyfarwyddeb NIS ar waith drwy Reoliadau NIS 2018, a ddaeth i rym ar 10 Mai 2018.

Cafodd cyflenwi a dosbarthu dŵr yfed ei ddynodi'n wasanaeth hanfodol yn Atodlen 1 y Rheoliadau. Y trothwy ar gyfer gweithredwyr gwasanaethau hanfodol yn y sector yw cyflenwyr sy'n darparu dŵr yfed i 200,000 neu fwy o bobl (a nodir yn Atodlen 2).

Yr Arolygiaeth yw'r awdurdod dirprwyedig sy'n gyfrifol am wirio bod cwmnïau dŵr wedi cymryd y camau priodol i gynnal diogelwch y rhwydwaith wrth gyflenwi dŵr yfed, ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Mae'r rheoliadau NIS yn darparu mesurau cyfreithiol i ddiogelu gwasanaethau a seilwaith hanfodol, drwy wella diogelwch systemau rhwydwaith a gwybodaeth. Mae cyfrifoldebau gweithredol swyddogaeth yr awdurdod cymwys, o dan y Rheoliadau ar gyfer y sector dŵr, wedi cael eu rhoi i'r Arolygiaeth.

Bydd yr Arolygiaeth yn gwneud y canlynol: paratoi a chyhoeddi dogfennau canllaw i helpu gweithredwyr gwasanaethau hanfodol; derbyn ac asesu hysbysiadau am ddigwyddiadau a chynnal asesiadau o'r digwyddiadau hynny, cynnal archwiliadau a chamau gorfodi (gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau a chosbau), lle bo angen.

Amcan: Sicrhau bod y diwydiant yn gallu gwrthsefyll ymosodiadau seiber, drwy nodi risgiau a hyrwyddo eu mesurau lliniaru; sicrhau bod bygythiadau dan reolaeth a bod gwersi'n cael eu dysgu.

Ein dull gweithredu: Bydd gennym ddigon o staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Byddwn yn ceisio hybu buddsoddiad cwmnïau, gan weithio gyda rheoleiddwyr eraill o fewn y fframwaith rheoleiddio. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy godi ffioedd sy'n deg, yn gymesur ac y gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol.

## 9. Cyfarwyddyd Diogelwch ac Argyfyngau

Bydd yr Arolygiaeth yn rheoleiddio diogelwch gwladol yn y sector dŵr a dŵr gwastraff yn ogystal â sicrhau bod cwmnïau'n lliniaru effeithiau argyfwng sifil (A208 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr).

### 10. Cyflenwadau dŵr preifat

Amcan: Hyrwyddo awdurdodau lleol i reoleiddio cyflenwadau dŵr preifat yn effeithiol, fel bod defnyddwyr yn cael yr un lefel o ddiogelwch â chyflenwadau cyhoeddus.

Ein dull gweithredu: Sicrhau bod deddfwriaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Helpu i ddarparu adnoddau i gasglu ac adrodd ar wybodaeth.

Sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, gan gynnwys gwrando ar sylwadau ar hysbysiadau a gyflwynir.

Darparu cyngor a gwybodaeth dechnegol i awdurdodau lleol er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth.

Sicrhau bod yr offer a'r adnoddau ar gael i goladu a chynnal y cofnod cenedlaethol ar leoliad ac ansawdd cyflenwadau dŵr preifat; ac adrodd ar y statws presennol i weinidogion.

Darparu gwybodaeth ac arweiniad i randdeiliaid sy'n ymwneud â chyflenwadau dŵr preifat, yn benodol lle mae polisïau a safonau'n croestorri â’r gwaith o reoli a rheoleiddio cyflenwadau dŵr preifat. Mae hyn yn cynnwys adrannau'r llywodraeth sy'n gyfrifol am feysydd trawsbynciol fel tai, cynllunio a thrawsgludo.

### 11. Ystyriaethau a heriau tymor hir

Amcan: Ymgysylltu â'r llywodraeth a rhanddeiliaid ar bolisi a strategaeth i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu cyflenwadau dŵr yfed a ffynonellau dŵr yn y dyfodol.

Ein dull gweithredu: Darparu cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weinidogion ar faterion strategol sy'n wynebu'r sector dŵr, a rheoleiddio. Bydd y rhain yn cynnwys cynnal a diweddaru safonau rheoleiddio i ddiogelu defnyddwyr, sicrhau digonolrwydd a chadernid cyflenwadau, cynghori ar faterion diogelwch a sicrhau, lle cânt eu harfer, bod digon o fesurau diogelu i sicrhau bod dŵr yn cael ei ailddefnyddio a'i ailgylchu'n ddiogel.

Byddwn yn ymgysylltu ag arbenigwyr technegol gan gynnwys Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, i sicrhau bod y cyngor gorau ar gael, a byddwn yn cynnal rhaglen ymchwil i wella dealltwriaeth a sicrhau bod unrhyw fylchau mewn gwybodaeth yn cael eu llenwi.

Rydym yn cydnabod newidiadau mewn demograffeg, anghenion a disgwyliadau cenedlaethau'r dyfodol, a byddwn yn cefnogi cynigion ar gyfer unrhyw seilwaith newydd sydd ei angen i gynnal cyflenwad digonol o ddŵr iach.

Rydym yn cydnabod bod diben cymdeithasol i ddarparu dŵr, ac y dylai gwerth dŵr gael ei adlewyrchu yn y gymdeithas ehangach.



| Key | Allwedd |
|---|---|
| Primary Stakeholder groups | Grwpiau Rhanddeiliaid Cynradd |
| Stakeholders we work with to deliver our goals | Rhanddeiliaid rydym yn gweithio gyda nhw i gyflawni ein nodau |
| Stakeholders we engage with regularly | Rhanddeiliaid rydym yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd |
| Water regulations advisory Scheme | Cynllun Ymgynghori Rheoliadau Dŵr |
| Accreditation Bodies, Standing Committee of Analysts, UKAS, British Standards | Cyrff Achredu, Pwyllgor Sefydlog Dadansoddwyr, Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS), Safonau Prydeinig |
| Chemical, Products and fittings manufacturers | Cemegion, Cynhyrchion a gweithgynhyrchwyr ffitiadau |
| Energy and Utilities Skills | Sgiliau Ynni a Chyfleustodau |

| | |
|---|---|
| Colleges and skills Development | Colegau a Datblygu Sgiliau |
| Professional Institutes, eg Institute of Water | Sefydliadau Proffesiynol, e.e. Sefydliad Dŵr |
| Food and drink manufacturers | Gweithgynhyrchwyr bwyd a diod |
| Public through enquiry service and complaints | Y cyhoedd drwy wasanaeth ymholiadau a chwynion |
| Water Health Partnership | Partneriaeth Iechyd Dŵr |
| Future Generations | Cenedlaethau'r Dyfodol |
| WaterAid | WaterAid |
| World Health Organisation | Sefydliad Iechyd y Byd |
| OHID Dental Flouridation | Fflworideiddio Deintyddol OHID |
| International and European technical groups | Grwpiau technegol rhyngwladol ac Ewropeaidd |
| Regulator networds | Rhwydweithiau rheoleiddio |
| Industry best practice Networks | Rhwydweithiau arferion gorau'r diwydiant rhwydwaith |
| Future water association | Cymdeithas dŵr y dyfodol |
| Scientific journals and conferences | Cynadleddau a chyfnodolion gwyddonol |
| Scottish regulator, Northern Ireland, Gibraltar, Isle of Man, Guernsey | Rheoleiddiwr yr Alban, Gogledd Iwerddon, Gibraltar, Ynys Manaw, Guernsey |
| Food Standards agency | Yr Asiantaeth Safonau Bwyd |
| Natural England | Natural England |
| Health and Safety executive | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Water Resource Planning groups | Grwpiau Cynllunio Adnoddau Dŵr |

| | |
|---|---|
| British Geological Survey | Arolwg Daearegol Prydain |
| Labrotories and analytical Services | Gwasanaethau labordai a dadansoddi |
| Supply chain and Contractors | Cadwyni gyflenwi a Chontractwr |
| Water UK | Water UK |
| Water companies, Wholesale and retail | Cwmnïau dŵr, Cyfanwerthu a chyfanwerthu |
| Consumer Council for WAter | Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr |
| Vulnerable consumers | Defnyddwyr agored i niwed |
| Local Authorities for private water Supplies | Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyflenwadau dŵr preifat |
| Centre for Communicable Disease | Canolfan Clefydau Trosglwyddadwy |
| UK heath Security agency | Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU |
| UK water industry Research | Ymchwil diwydiant dŵr y DU |
| Research Universities | Prifysgolion Ymchwil |
| UK Government | Llywodraeth y DU |
| Natural Resources Wales | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Environment agency | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| OFWAT Economic regulator | Rheoleiddiwr economaidd OFWAT |
| National Cyber Security Centre | Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol |
| Water suppliers | Cyflenwr dŵr |
| Water practitioner groups | Grwpiau ymarferwyr dŵr |
| Consumers | Defnyddwyr |
| Local government | Llywodraeth leol |

| | |
|---|---|
| Health protection | Diogelu iechyd |
| Research | Ymchwil |
| Legislators | Deddfwriaeth |
| Regulators | Rheoleiddwyr |
| Drinking water inspectorate | Arolygiaeth dŵr yfed |